



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter
a busnes



PLÂU CYFFREDIN MEWN MEFUS: cyflwyniad

Mae sawl pla yn byw mewn cnydau mefus, nid yw'r plâu isod yn benodol i fefus a gellir eu gweld mewn nifer o gnydau eraill. Maen nhw'n cynrychioli rhai o'r rhywogaethau mwyaf niweidiol neu sy'n magu gyflymaf y gallwch ddod o hyd iddyn nhw a byddai'n flwyddyn anghyffredin petai dim o'r rhai a restrir isod yn cael eu gweld ar ryw ffurf mewn cnwd masnachol mawr neu ardd fechan.

PRYF GLAS

Mae'r pryf glas yn bla cyffredin mewn nifer o gnydau gan gynnwys mefus, maent yn ddyfalbarhaus ac yn anodd cael gwared arnynt yn llwyr o gnwd. Mae nifer o rywogaethau a gall y rhan fwyaf o bryfed glas atgenhedlu yn ddi-ryw, heb fod angen gwryw i gynhyrchu rhai ifanc byw neu ddodwy wyau. Mae hyn yn golygu y gall nifer fechan mewn cnwd gynyddu yn gyflym iawn. Mae gan bryfed glas hefyd amrywiadau asgellog sy'n hyrwyddo lledaeniad y pryfed ymhlith y cnwd. O ganlyniad i hyn mae'r trothwy ar gyfer bod angen dechrau ymdrin â'r pryf glas yn isel iawn.

Bydd y rhan fwyaf o rywogaethau yn cysgodi dan y dail neu ar y petiolau ac ymledyddion.



*Enghraifft o bryfed glas
yn cysgodi dan y dail*



*Enghreifftiau o aelodau asgellog
a heb esgyll o bryfed glas*


Difrod

Mae llawer o'r rhywogaethau yn achosi difrod gwahanol i gnydau, mae'r rhywogaethau yma i gyd yn difrodi planhigion trwy sugno'r nodd allan o'r celloedd, gyda rhai rhywogaethau gall y difrod yma amharu ar siâp y planhigyn. Mae'r nodd wedyn yn cael ei ysgarthu fel sylwedd a elwir yn fêl-gawod sy'n llygru'r cnwd a gall achosi i afiechydon ffurfio. Gall presenoldeb y pryfed glas ynddo ei hun hefyd lygru'r ffrwythau a bydd rhai rhywogaethau o bryfed glas yn trosglwyddo feirysau wrth fwyta.

TSSM

Pryfed bach iawn yw gwiddon corryn dau smotyn (TSSM) sy'n bresennol mewn amrywiaeth eang o gnydau. Maent tua hanner milimetr o faint ac argymhellir defnyddio chwyddwydr i'w gweld nhw. Gan ddibynnu ar y cnwd gall pob gwiddonyn benywaidd ddodwy rhwng 50 a 100 o wyau, mae'r cyfnod datblygu yn amrywio yn sylweddol gyda'r tymheredd. Ar 15°C mae cylchred bywyd gwiddon corryn tua 35 diwrnod, ar 25°C mae'n tua 9 diwrnod. Gall poblogaethau gynyddu yn gyflym iawn gyda thymheredd uchel, ac maen nhw'n datblygu yn well pan fydd llai o leithder.

Tua diwedd y tymor pan fydd yn cyrraedd tua mis Medi, mae'r gwiddon yn arafu a byddant yn mynd i gyfnod o saib a byddant yn stopio bwyta a dodwy wyau i aeafu. Oherwydd eu bod yn stopio bwyta maen nhw'n anodd eu lladd gyda phlaleiddiad yn ystod y cyfnod hwn.



Enghraifft o widdon corryn dau smotyn ac wyau dan y dail



Enghraifft o'r we a achosir gan bla mawr

Difrod

Yn debyg i bryfed glas mae gwiddon corryn yn difrodi'r cnwd trwy sugno'r cynnwys o gelloedd y planhigyn, mae'r difrod hwn yn aml yn gadael smotiau golau neu felyn ar y dail. Bydd pla drwg iawn o widdon corryn yn creu gwe ar y dail, a all fod yn arwydd o ddifrifoldeb y pla. Mae'r arwyddion o ddifrod gan widdon corryn yn aml yn haws eu gweld na'r gwiddon eu hunain.

PRYFED TARANAU

Pryfed bach iawn, main eu cyrff yw pryfed taranau tua 1-2mm o hyd. Maen nhw i'w gweld mewn llawer o gnydau ffrwythau meddal gan gynnwys mefus. Bydd y pryfed taranau yn aml yn byw yn y blodyn ac o'i gwmpas, gan guddio yn aml tu ôl i'r calycs (gweler y llun isod). Y cyfnod pan fyddant yn weithredol fel arfer yw rhwng Ebrill a Medi sy'n amrywio yn ôl rhywogaeth.

Mae llawer o rywogaethau yn bresennol mewn cnydau mefus, er ei bod bron yn amhosibl eu hadnabod heb ficrosgop pwerus iawn. Mae gwybod pa rywogaeth yn bwysig achos mae un rhywogaeth a elwir yn "Bryfed Taranau Blodau Gorrlewinol" (Western Flower Thrips *Frankliniella occidentalis*) yn gallu gwrthsefyll nifer fawr o blaleiddiaid cemegol.

Ond mae cemegolion yn llwyddiannus yn erbyn y rhan fwyaf o'r rhywogaethau eraill. Bydd defnyddio'r dull rheoli biolegol *Neioseiulus (Amblyseius) cucumeris* yn bwyta'r larfa y gellir dod o hyd iddynt yn y cnwd ond rhaid bod yn ofalus gan y deallir ar hyn o bryd nad yw pob rhywogaeth yn magu yn weithredol mewn cnydau mefus. Gall *Orius laevigatus* ymosod ar oedolion ond mae arnynt angen tymheredd uwch i ymsefydlu yn dda. Mae'n well gan rai o'r rhywogaethau eraill fagu yn rhywle arall, mewn gwrychoedd gerllaw, ar risgl coed ac mewn chwyn sy'n blodeuo ac yna symud i'r cnwd lle maen nhw'n achosi difrod.



Enghraifft o ddifrod pryfed taranau ar ffrwythau



Enghraifft o bryfed taranau yn bresennol ar y calycs

Difrod

Maent yn byw ar baill ac yn achosi difrod i'r cnwd trwy fwyta nodd y planhigyn ac maen nhw'n rhoi'r wyau ym meinwe'r planhigyn. Gall eu presenoldeb mewn cnwd lygru a gall y difrod arwain at waethygu ansawdd y ffrwyth. Gelwir y difrod mewn mefus yn "bronzing" yn Saesneg neu frownio pan fydd y ffrwythau gwyn yn cael smotiau brown sy'n gostwng eu safon.

GWIDDON GWINWYDD

Mae gwiddon gwinwydd yn bla a all fod yn niweidiol i gnydau ffrwythau meddal. Maen nhw'n amrywio yn eu maint ond maen nhw tua 8-12mm o hyd yn llawn dwf gyda marciau du ac oren pŵl. Mae'r larfa yn wyn, heb goesau ac a chapan brown ar eu pennau, byddant yn aml yn dal eu hunain ar batrwm neu siâp "C". Mae'r oedolion yn weithredol trwy'r flwyddyn ond mae'r larfa yn weithredol o ddiwedd yr haf hyd at y gaeaf.

Yn y nos y mae'r oedolion yn weithredol felly mae'r posibilrwydd o'u gweld yn y cnwd yn ystod y dydd yn brin iawn, byddant yn cuddio mewn darnau cysgodol nes daw'r nos. Un ffordd fwy dibynadwy o fonitro eu presenoldeb yw trwy osod trapiau neu chwilio am eu hól.

Mae pob gwiddonyn gwinwydd yn fenywaidd, yn magu heb wryw a gall ddodwy hyd at 1600 o wyau yn ei oes dan yr amodau delfrydol. Dim ond un unigolyn sydd ei angen i gychwyn poblogaeth os caiff ddigon o amser. Gall ardaloedd y cnwd gael eu llygru yn aml wrth i oedolion lynu wrth gewyll neu blanhigion sy'n cael eu symud o gwmpas. Yn nodweddiadol bydd yr wyau yn cael eu dodwy o fis Ebrill hyd at fis Medi/Hydref. Gan gymryd tua pythefnos i ddeor ar 20°C.



Enghraifft o oedolyn gwiddon gwinwydd yn ymyl y difrod y mae'n ei achosi



Enghraifft o larfa gwiddon gwinwydd o gwmpas y gwreiddiau

Difrod

Mae gwiddon gwinwydd yn achosi dau fath o ddifrod, mae'r oedolion yn creu rhicynnau ar ddail lle byddant yn brathu i'r arwyneb. Nid yw'r difrod yma yn beryglus i'r planhigyn os yw'n ddigon mawr. Daw'r brif broblem gyda gwiddon gwinwydd o'r larfa. Mae'r larfa yn byw yn y pridd/ cyfrwng tyfu ac yn bwyta gwreiddiau'r cnwd. Gall ymosodiad mawr achosi tyfiant gwael, i'r planhigion fod yn fychan ac i rai ohonynt farw.